Dileu elw o ofal plant

Hoffem gael eich barn ar weithredu’r broses o gael gwared ar elw o ofal plant o 1 Ebrill 2026.

Eich enw:

Shaun Bendle

Sefydliad (os yn berthnasol):

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

E-bost / rhif ffôn:

sbendle@wcva.org

Eich cyfeiriad:

Un Rhodfa’r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Y dull arfaethedig o gofrestru ar gyfer gwasanaethau plant o dan gyfyngiad o 1 Ebrill 2026 ymlaen a newidiadau posibl i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017

Cwestiwn 1

Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i’r rheoliadau cofrestru? Rhannwch unrhyw awgrymiadau ar gyfer unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yr hoffech eu gweld.

Cwestiwn 2

Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau neu fuddion) y credwch y gallai'r newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Cwestiwn 3

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y newidiadau arfaethedig i'r rheoliadau cofrestru yn cael eu cefnogi gan ganllawiau cadarn er mwyn helpu darparwyr, plant sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd a'u gofalwyr i ddeall sut y dylai'r system weithredu. Pa bynciau neu faterion penodol y dylai'r canllawiau ymdrin â nhw er mwyn helpu pobl i ddeall y newidiadau i reoliadau?

Cwestiwn 4

Beth yw eich barn chi am yr amseriadau arfaethedig a'r dull trosiannol o gofrestru? Nodwch unrhyw oblygiadau neu risgiau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau hyn, gan gynnwys y cynnig i gyflwyno dyddiad cau ar gyfer ymdrin â cheisiadau fel pe bai'r ddeddfwriaeth flaenorol yn berthnasol.

Newidiadau arfaethedig i’r broses datganiadau blynyddol er mwyn galluogi darparwyr i ddangos statws nid-er-elw parhaus gan gynnwys newidiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

Cwestiwn 5

Beth yw eich barn ar y newidiadau arfaethedig i’r rheoliadau datganiadau blynyddol? Rhannwch unrhyw awgrymiadau ar gyfer unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau yr hoffech eu gweld.

Cwestiwn 6

Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau a/neu fuddion) y credwch y gallai’r newidiadau arfaethedig i’r rheoliadau datganiadau blynyddol ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Dull monitro a gorfodi arfaethedig ar gyfer yr adran ‘trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur’ newydd a ychwanegwyd at ddeddf 2016

Cwestiwn 7

Beth yw eich barn ar y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur?

Cwestiwn 8

Pa effaith (gan gynnwys unrhyw gostau neu fuddion) y credwch y gallai’r dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur ei chael ar sefydliadau neu sectorau gwahanol yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol?

Cwestiwn 9

Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y dull arfaethedig o fonitro a gorfodi ar gyfer trefniadau ariannol afresymol neu anghymesur yn cael ei gefnogi gan ganllawiau cadarn er mwyn helpu darparwyr, plant sy’n derbyn gofal, eu teuluoedd a’u gofalwyr i ddeall sut y bydd y system yn gweithredu. Pa bynciau neu faterion penodol y dylai’r canllawiau eu cwmpasu er mwyn disgrifio’r dull arfaethedig ymhellach?

Cwestiynau eraill

Cwestiwn 10

Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

- Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
- Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Cwestiwn 11

Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynigion er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Cwestiwn 12

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i roi gwybod amdanynt.

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod hwn i'w hadrodd.

Mae CGGC yn cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i gael gwared ar yr elw mewn gofal plant yng Nghymru. Er mwyn sicrhau bod y polisi yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y potensial am gam-fanteisio a chanlyniadau anfwriadol mor fach â phosibl.

Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i weithio'n agos gyda Rheoleiddiwr Cwmnïau Buddiant Cymunedol (CICs) er mwyn sicrhau bod yr elw yn cael ei ddifa'n llwyr o ofal plant. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r Rheoleiddwr yn gynnar a'i wneud yn ymwybodol o'r pontio rhwng busnesau er elw i CICs o fewn y sector.

Hoffwn hysbysu Llywodraeth Cymru o'r posibiliadau o gam-fanteisio, a all niweidio enw da'r sectorau gwirfoddol a mentrau cymdeithasol. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Rheoleiddiwr ystyried unrhyw fusnesau presennol sy'n cadw asedau sylweddol, yn enwedig eiddo, mewn cwmni er elw, wrth agor CIC ar gyfer eu darpariaeth ofal. Golyga hyn y gall y cwmni er elw godi tâl ar y CIC i ddefnyddio eu heiddo/safle busnes, a hynny ar gyfradd uwch na'r farchnad o bosibl. Gallai gwasanaethau eraill, fel ymgynghori, gael eu cyflenwi mewn modd tebyg. Dylai Llywodraeth Cymru a'r Rheoleiddiwr weithio gyda'i gilydd i sicrhau nad oes camfantais o'r fath yn digwydd, bod y symudiadau o gwmnïau er elw i CICs yn ddilys a'u bod yn unol ag ysbryd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025.

Cyflwynwch eich ymateb

Mae'n debyg eich bod yn mynd i gyflwyno eich ateb. Gwnewch yn siŵr eich bod yn fodlon â'r atebion yr ydych wedi'u rhoi cyn eu hanfon.

Enw (dewisol):

Shaun Bendle

Sefydliad (if applicable):

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC)

Rhif ffôn (dewisol):

Cyfeiriad (dewisol):

Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

Er mwyn gallu rhoi derbynneb i'ch ymateb, rhowch gyfeiriad e-bost dilys.
Cyfeiriad e-bost:

sbendle@wcva.cymru

Mae ymatebion i ymgyngoriadau yn debygol o gael eu cyhoeddi. I gadw eich ymateb yn ddienw (gan gynnwys cyfeiriadau ebost) ticiwch y blwch: ☐